**Adroddiad Blynyddol 2012/13**

Adroddiad Blynyddol gan y Cynghorydd Angela Russell, Ward Llanbedrog. 2012-2013 fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru 2011.

**Pwyllgorau Cyngor Gwynedd a Fynychais.**

**Presenoldeb mewn Pwyllgorau**

| Nifer Cyfarfodydd | Presennol | Absennol | Ymddiheuriad |
|---|---|---|---|
| 46 | 43 | 0 | 3 |

Canran Presenoldeb mewn Pwyllgorau = **93%**

**Gwaith Ehangach**

Fel y gwyr llawer y tu fewn i fy ward, hyd yn oed yn ystod fy etholiad ym mis Mai, roedd ein pentref dan fygythiad yn sgil ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Barthau Cadwraeth Morwrol dan Warchodaeth Arbennig. Roedd hyn yn fygythiad amlwg i'n busnesau, traddodiadau a thwristiaeth. Mynychais lawer o gyfarfodydd ar y mater nid yn unig yn lleol ond hefyd ym Miwmares, Caernarfon a Sir Benfro. Er nad fu cyhoeddiad cyhoeddus ar hyn o bryd gan y gweinidog newydd, Alun Davies ar y pwnc, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen yn dilyn pwysau cyhoeddus gydag aelodau lleol yn cynrychioli a deallaf y byddwn yn cael gwybod yn fuan ar y mater.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch am bob cefnogaeth gan fy etholwyr. Rwy'n barod am yr her o gynrychioli pawb yn Llanbedrog a Phenrhos. Ers cael fy ethol, rwyf wedi cael rhan mewn sawl prosiect o fewn y ward a charwn ddiolch yn bersonol i Dafydd Wyn Williams, Dylan Wyn Jones, Alun Roberts, Barry Davies, Gwen Alun, Garry Hughes Carradog a Peter Simpson i enwi rhai ac rwyf wedi gwerthfawrogi eu cymorth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf. Hoffwn ddiolch i Gyngor Gwynedd am ail-wynebu'r brif lon yn Llanbedrog a gwneud y tro Glynllifon ar yr A499 yn fwy diogel. Rwy'n ddiolchgar am y gwelliannau allanol i'r toiledau cyhoeddus ger y traeth ac ein bod wedi cael ardal nofio ddiogel ar y traeth. Mae'r drych ger yr Eglwys wedi gwella diogelwch yn fawr iawn. Mae'r bin baw cwn ar y llwybr arfordirol llwyddiannus wedi bod yn ychwanegiad i'w groesawu ac rwy'n edrych ymlaen at gytuno lleoliad gorau'r ddau fin ychwanegol o fewn y ward.

Fel cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbedrog, rwy'n edrych ymlaen at weld pawb yn y ward yn derbyn pamffled sydd yn cael ei ddylunio a'i gynhyrchu gennym. Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r pamffled ac yn ei gael yn addysgiadol. Mae'r prosiect hwn wedi golygu llawer o waith ac ymdrech ac roeddwn yn ffodus i sicrhau'r arian ar ei gyfer.

Rwyf wedi mwynhau fy mlwyddyn gyntaf fel eich Cynghorydd Sir lleol yn fawr iawn ac rwyf yn ei ystyried yn fraint i gael fy newis yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor gan fy nghyd-aelodau. Rwyf wedi bod yn cynrychioli Cyngor Gwynedd mewn trafodaethau ar faterion tai yn Llanelwedd ac rwy'n edrych ymlaen at yr heriau o'n blaenau.

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ail-agor Llwybr Nant ar ôl niwed y llifogydd ac rwyf mewn trafodaethau ar sut mae gwneud y gyffordd ger Gorsaf betrol Llanbedrog yn fwy diogel. Rwy'n gweithio ar wneud yr A499 ger Penrhos yn fwy diogel ac yn trafod llwybr beicio i'r dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi eu ffydd ynof i'w cynrychioli ar Gyngor Gwynedd.

**Cyfarfodydd Lleol Eraill**

1. Llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Llanbedrog

2. Llywodraethwr ar Ysgol Uwchradd Botwnnog.

3. Aelod o Gymdeithas y Pwyliaid ym Mhenrhos.

**Hyfforddiant a Fynychwyd**

9 Mai 2012 - Anwytho Cyffredinol i Aelodau Newydd

10 Mai 2012 - Anwytho Holl Aelodau

23 Mai 2012 - Cyflwyniad i Gynllunio

30 Mai 2012 - Cyflwyniad i'r Diwylliant Newydd a Phrotocolau

26 Mehefin 2012 - Craffu : Pwyllgor Cymunedau

4 Gorffennaf 2012 - Rheoli Newid – Strategol a Gwella

12 Gorffennaf 2012 - Hyfforddiant Archwilio

13 Gorffennaf 2012 - Hyfforddiant Trwyddedu

17 Gorffennaf 2012 - Gweithdai Cynefino – Awdurdod Lleol Betsi Cadwaladr

7 Medi 2012 - Sesiwn Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru

12 Medi 2012 - Dulliau Holi ar gyfer Craffu

2 Tachwedd 2012 - Sesiwn Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru

21 Tachwedd 2012 - Hyfforddiant I-pad

28 Tachwedd 2012 - Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol

9 Ionawr 2013 - Hyfforddiant Addysg

27 Chwefror 2013 - Gwybodaeth am Bobl : Eith Cyfrifoldeb Chi

**Cyfanswm Oriau = 61.15**

**Cyrff Allanol**

Aelod o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Aelod  o Grŵp Rheilffordd yr Arfordir